
PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 362 | HYDREF 2013




t6



## Eisteddfan newydd

t5



## Llun y mis

t11

# Priodasau'r haf



Rhŷs ap Tegwyn o Bow Street a Nia Lewis o Landyfrïog ar ddiwrnod eu priodas, 28ain Medi. Llongyfarchiadau a dynumuniadau gorau iddynt oddi wrth y ddau deulu a ffrindiau. Llun gan Ffoto Sian Bowi.



Llongyfarchiadau i Emyr George (Llys Hedd, Bow Street) a Sarah Watson (Stoneleigh) ar eu priodas ar 17 Awst yng ngwesty'r Talbot, Tregaron. Mae'r pâr ifanc wedi ymgartrefu yn Leamington Spa.



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Elin Mai Roffe. Clarach ac Eilian Gwilym Hughes o Gaeathro, Caernarfon a briodwyd yn Eglwys Llangorwen ar 21 Medi.




Llun: Mari Fenton

Llongyfarchiadau a phob dyuniuad da i Simon a Katie Bevan a briodwyd ar 14 Medi yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**

**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Hydref

**Deunydd i law: Tachwedd 8 | Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 20**

**HYDREF 16** Nos Fercher Barbara Davies Y Faciwî Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**HYDREF 18** Nos Wener Bingo yn Neuadd Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch

**HYDREF 19** Nos Sadwrn Noson codi arian PATRASA yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch. Buffet poeth ac adloniant. Thema'r wisg ffansi: teledu a ffilm. Tocynnau: £10 gan aelodau'r pwyllgor. Dewch yn llu i gefnogi'r parc.

**HYDREF 19** Nos Sadwrn John ac Alun yn lansio eu llyfr newydd yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth yng nghwmni Bois y Fro.

**HYDREF 24** Nos Iau Noson goffi yn Neuadd Rhydypennau am 6.30. Bydd gwahanol stondinau ac adloniant gan blant ysgol Rhydypennau.

**HYDREF 24** Nos Iau Noson ddringo CIC cwrdd ger Wal Ddringo'r Gampfa Campws Pen-glais, Prifysgol Cymru am 7.00.

**HYDREF 25** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor

**HYDREF 25** Nos Wener Noson gwin a bingo yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 7.30. Croeso i bawb.

**HYDREF 25** Nos Wener Cwmni Bara Caws yn cyflwyno 'Annwyl Kate, Annwyl Saunders' gyda John Ogwen a Maureen Rhys yn y Llew Du, Tal-y-bont am 8.00, Tocynnau £5 ( 01970 832560)

**HYDREF 26** Nos Sadwrn Cofiwch droi y clociau nôl!

**HYDREF 29** Nos Fawrth Noson yng nghwmni Arwel Gruffydd, Cyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru am 7.30. Mynediad am ddim drwy docyn.

**HYDREF 30** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 8.30

**HYDREF 30** Nos Fercher Tecwyn Jones, Weston, Aberaeron - Atgofion Ifaciwî (Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion) yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanddeiniol am 8.00. Croeso cynnes i bawb.

**TACHWEDD 1** Nos Wener Darlith flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig: Cenedl y Cymry yn y Deyrnas Unedig – Yr Arglwydd Morris o Aberafan yn y Drwm, LLGC am 5.00. Mynediad am ddim drwy docyn.

**TACHWEDD 4** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl hanner tymor

**TACHWEDD 6** Nos Fercher Pwyllgor blynyddol Sioe Capel Bangor yn y Druid, Goginan am 7.30

**TACHWEDD 7** Nos Iau Gweithgareddau CIC gyda Sioned a Derfel yn Festri'r Garn am 7.00

**TACHWEDD 7** Nos Iau Talwrn y Beirdd Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2014 yn Neuadd Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid am 7.00. Recordir gan y BBC

**TACHWEDD 9** Dydd Sadwrn Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2014 ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid i ddechrau am 12.00.

**TACHWEDD 15** Nos Wener Bingo yn Neuadd Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch

**TACHWEDD 15-16** Dyddiau Gwener a Sadwrn Gŵyl Lyfrau Morlan Aberystwyth Gweler http://www.morlan.org.uk

**TACHWEDD 17** Dydd Sul Ffair grefftau Cymdeithas Goginan yn y siop teils a sêl Cist Car o 11.00 -5.00

**TACHWEDD 19** Nos Fawrth Darlith Flynyddol Edward Lhuyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Traddodir y ddarlith gan yr Athro Brynley Roberts ar y testun 'Ar Drywydd Edward Lhwyd' yn y Drwm, LLGC am 5.30. Mae angen cadarnhau eich presenoldeb trwy gysylltu â 0844 800 7375 gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

**TACHWEDD 20** Nos Fercher Geraint Jones Cofio RS Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30.

**TACHWEDD 21** Nos Iau Noson gan aelodau CIC i groesawu Zoe Jones, gweithiwr newydd y Fenter yn Festri'r Garn am 7.00

### Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer fis Medi 2013**

**£25** (Rhif 94) Dinah Henley, Dôl Eglur, Bow Street

**£15** (Rhif 277) Eirian Morgan, 9 Maes Seilo, Penrhyn-coch

**£10** (Rhif 85) Anwen Pierce, 3 Bryn Meillion, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Medi 18.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd. Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

Annwyl Olygydd,
Tybed a all darllenwyr *Y Tincer* fod o gymorth i mi? Yr wyf yn chwilio am hanes y teuluoedd canlynol ym Mhenrhyn-coch, sef teuluoedd Pierce, Roberts, Jones, Thomas, Felix a Pierce. Beth yw cysylltiad John Pierce, ganed 1800, a'i wraig, Mary, ganed 1793, â theulu Pierce?

Nid wyf fi fy hun yn ddieithr i Benrhyn-coch. Bum yn byw yno rhwng 1933 ac 1945 a threuliwn fy ngwyliau haf yno bob blwyddyn gan ddychwelyd yn ddi Saesneg i Lerpwl bob hydref. Hyd heddiw, fe ddywed fy ngwraig fod fy nghalon yn y Penrhyn! Er hynny, fe fyddai yn well gennyf dderbyn unrhyw wybodaeth yn Saesneg.

Yn gywir a diolchgar iawn,

William Graham
2 Benton Court,
Modbury,
South Australia 5092
wgra0331@bigpond.net.au




## 30 MLYNEDD YN OL

Dyma'r rhai a gymrodd ran yn y rhaglen 'Dewch am dro' pan alwodd Alun Wiliams yn yr Ysgol Feithrin yng Nghapel Bangor – Mrs June Baxter, Mrs Heulwen Lewis, Mrs Rosemary Thomas, Mr Alun Williams, Mrs Glenys Griffith a Mr Martin Davies. (O'r *Tincer* Hydref 1983)




Dyma hen lun o Benrhyn-coch sydd ym meddiant William Graham yn Awstralia. Mae'n lun sydd yn ddiarth i nifer a'i gwelodd. Mae ef yn meddwl ei fod yn dyddio i gyfnod cyn 1900 ac mai'r Farmers Arms – wedi hynny y Llythyrdy – ydy yr adeilad mawr ar y dde. Beth yw barn y darllenwyr? Cysylltwch â'r golygydd.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

**Camera'r Tincer**
Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

# PENRHYN-COCH

**Oedfaon Horeb**
**Gweler hefyd http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php**
**Hydref**
20 10.00 a 6.00 Cyrddau pregethu Bethel, Aberystwyth Y Parchg Peter Cutts, Caerfyrddin (Ysgol Sul am 10.30 yn Horeb)
27 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog Bydd Bethel yn cyd-addoli

**Tachwedd**
3 2.30 Ysgol Sul 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
10 9.30 Oedfa deuluol Gweinidog Sylwer ar yr amser dechrau – oherwydd Sul y Cofio
17 2.30 Oedfa bregeth Dr Rhidian Griffiths
24 10.30 Oedfa bregeth ac Ysgol Sul Gweinidog



## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 23 Hydref, 13 a 27 Tachwedd. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Dylan a Ceri, 33 Dôl Helyg, ar enedigaeth mab - Osian Gwern – ar Hydref 8fed. Ŵyr cyntaf i Alun a Janet Jones, Llwynglas, Tal-y-bont a gor-wyr i Ken Evans, Coedgruffydd .

## O'r Galon : Fflur Fychan

Ym mis Rhagfyr fel rhan o gyfres *O'r Galon*, bydd S4C yn darlledu rhaglen arbennig ar Fflur Fychan,37, o fferm Felin Newydd, Abercegir ger Machynlleth a barlyswyd dros nôs gan y cyflwr prin Transverse Myelitis. Dair blynedd yn ddiweddarach ac mae bywydau Fflur, ei gŵr Owain a'u tair o ferched bach, Mari, Lisa a Nansi wedi eu trawsnewid yn llwyr. Mae Fflur yn gwneud popeth i geisio gwellhâd ac yn dal i obeithio am y dydd y daw hi nôl i gerdded, ond yn y cyfamser mae hi'n benderfynol o fyw ei bywyd yn llawn.

Mae Fflur yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth ac Ysgol Penweddig, ac wedi ei magu ynghŷd â'i dwy chwaer Ffion a Rhian a'i brawd Joseph yng ngwesty'r teulu, Gwesty'r Marine Aberystwyth. Bu criw cynhyrchu o *Rondo* yn eu dilyn dros gyfnod o chwe mis eleni, a bydd y rhaglen yn cael ei darlledu ar S4C ar Nos Sul 29ain o Ragfyr 2013. (Dyddiad i'w gadarnhau.) Edrychwn ymlaen i groesawu Fflur i Benrhyn-coch gan mai hi fydd yn beirniadu y cystadlaethau llefaru nos Wener Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2014.

## O'r Galon : Yr Hardy's : Un Dydd ar y Tro

Dogfen bwerus yn dilyn y cyflwynwyr Geraint Hardy a'i dad John Hardy sy'n siarad yn agored am y tro cyntaf am effaith alcoholiaeth ar y teulu. Magwyd Geraint a'i frawd Daniel gan fam alcoholig, a hyd nawr dyw'r teulu heb drafod y mater yn gyhoeddus. Mae Carol Hardy yn sobor ers pymtheng mlynedd bellach ac mae hi a'r teulu yn siarad yn ffraeth ac yn onest am y cyfnod tywyll hwnnw lle bu bron iddyn nhw golli popeth. Bydd Geraint yn ymweld ag arbenigwyr meddygol ac yn mynd yn ôl i'w hen ysgol yn Llanhari yn ei ymgais i geisio cael gwared o'r tabŵ enfawr sy'n dal i fodoli o gwmpas alcoholiaeth.

Mae Carol Hardy erbyn hyn yn gweithio i'r *Stafell Fyw* yng Nghaerdydd. Mae'r ganolfan a sefydlwyd gan Wynford Ellis Owen yn rhoi cymorth i bobl sydd â phroblemau dibyniaeth fel caethiwed i alcohol a chyffuriau. Mae Geraint hefyd yn lysgennad yr ifanc i'r ganolfan.



Yn benodol mae Carol yn gweithio ar brosiect newydd sbon o'r enw *Estyn Llaw* sy'n darparu gweithdai ar hyd a lled Cymru i addysgu a chyflwyno sgiliau sy'n ymwneud â helpu dioddefwyr i wella. Bydd y rhaglen **O'r Galon : Yr Hardy's Un Dydd ar y Tro** yn cael ei darlledu ar S4C Nos Sul Rhagfyr 1af. Cynhyrchwyd y rhaglen gan Rondo.

## Brysiwch wella

Dymuniadau gorau i Mr Cliff Evans, Beech House, dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty.

## Oedfa Ddiolchgarwch

Cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch Horeb nos Fercher 2 Hydref pan ddaeth Carol Hardy o'r Ystafell Fyw, Caerdydd i annerch a chafwyd oedfa gofiadwy yn ei chwmni. Cyfanswm y casgliad oedd £84-00. Clywyd wedyn am raglen am Carol fydd ar y teledu cyn hir – gweler isod. Os oes rhywun am brynu tocynnau raffl er budd yr Ystafell



Fyw mae Elin Haf, Dôl Helyg, yn eu gwerthu.

### Cymdeithas y Penrhyn

Daeth tyrfa dda ynghyd i noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn eleni. Y gŵr gwadd oedd y newyddiadurwr Craig Duggan sydd yn lais ac wyneb cyfarwydd i wylwyr a gwrandawyr. Yn frodor o Bontypridd , cyn ddisgybl o Ysgol Gyfun Rhydfelen, bu Craig Duggan yn gweithio i'r BBC am beth amser cyn mynd i weithio i Gyngor Sir Powys gyda'u Menter Iaith. Mae bellach yn byw gyda'i deulu yn Llanbryn-mair ac yn ohebydd gyda'r BBC yn y Canolbarth.

Cafwyd sgwrs ddifyr ganddo yn egluro fel y câi ei alw ar drywydd ambell stori ac fel ar adegau roedd yn rhaid bod yn amyneddgar iawn yn disgwyl i bwyllgor orffen cyfarfod i glywed canlyniadau trafodaeth.

Daeth ag offer gyda fo i ddangos fel bod yn rhaid i'r gohebydd erbyn hyn fod yng ngofal y sain, y ffilmio, y golygu. Chwaraeodd glipiau o nifer o storïau yr adroddodd amdanynt gan gynnwys trio cael y teigar yn Animalarium y Borth i fynd i mewn i'r bocs!

### Clwb Plant Hanner Tymor Festri Horeb

Bydd Capel Horeb yn cynnal Clwb Hanner Tymor ar ddydd Llun, 28ain Hydref a dydd Mawrth, 29ain Hydref o 10.00yb tan 12.30yp i blant oed 7-10.

Cynhelir amrywiaeth o weithgareddau hwylus fel gwaith crefft, gemau, coginio, ffilm, helfa drysor, stori a chân o dan arweiniad y gweinidog a dwy o aelodau'r eglwys, sef Mrs Wendy Reynolds a Mrs Ceri Williams. Bydd Miss Sioned Williams sydd ar dymor o brofiad gwaith hefyd yn arwain sesiynau. Darperir lluniaeth ysgafn yn ystod y bore.

Codir tâl o £2 y sesiwn a phris gostyngol o £1 i frawd a chwaer. Os hoffech dderbyn unrhyw wybodaeth bellach dowch i gysylltiad â'r Parchg Judith Morris ar 01970 820939 neu drwy e-bost: berwynfa@btinternet.com.

### Urdd y Gwragedd Eglwys Sant Ioan

Gwraig wadd y mis oedd Delyth Morris Jones, Tymawr, Ponterwyd .Bu teulu ei thad yn byw yn y cartref ers 1883. Cafwyd hanes ei mam yn gweithio fel nyrs yn Llundain ac yna yn dychwelyd i ardal Pontarfynach yn y 30au fel nyrs yn y gymmuned. Diolchwyd iddi am noson ddiddorol a hwyliog.

### Pen blwydd arbennig

Dymuniadau gwresocaf i Mrs Glenys Thomas, Cwmfelin, a ddathlodd ben blwydd arbennig ddydd Sul, 13 Hydref.

### Cwrs coleg

Llongyfarchiadau i Gwenno Morris, Preseli, ar ei chanlyniadau TGAU a phob hwyl ar ei chwrs yng Ngholeg Ceredigion.

### Lansio cyfrol

Dydd Gwener 11 Hydref lansiwyd trydedd gyfrol y bardd Nigel Humphreys *Of moment* (Arbor Vitae Press) yn siop lyfrau Russky Mir, Goodge Street, Llundain. Bydd lansiad arall yn siop lyfrau Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth nos Fercher 16 Hydref am 6.30.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau 12fed o Fedi cafwyd noson agoriadol y tymor newydd. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein Llywydd, Sue Hughes. Trafodwyd y busnes arferol trwy fynd trwy'r ohebiaeth a ddaeth i law, yna fe dreuliwyd noson yng nghwmni ein gilydd yn mynd dros atgofion ac edrych ar luniau a dynnwyd o weithgareddau y gangen yn ystod y blynyddoedd a aeth heibio. Dangoswyd y lluniau ar y sgrîn fach gan Glenys Morgan - rhai a baratowyd gan Janice Morris. Cafwyd hwyl a sbri wrth i ni gofio yn ol a gweld y lluniau diddorol ac hefyd rhai doniol. Diolchwyd i bawb a drefnodd y noson a mwynhawyd y bwffe oedd yr aelodau wedi ei baratoi. Noson hapus i ddechrau'r tymor.

### Clwb Pêl-droed

Mae Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch, trwy grantiau hael gan Gyngor Sir Ceredigion a Grant Ymddiriedolaeth Cymru i Adnewyddu caeau Pêl-droed, wedi gosod eisteddfan 145 sedd ar gaeau Cae Baker dros yr haf.

Gosodwyd yr eisteddfan gan Audience Systems Ltd ar y 9fed o Awst 2013 ar lawr a baratowyd gan gontractwyr lleol Adeiladwyr G & M , partneriaeth Rob Moore a Rhydian Green.

Mae hwn yn rhan o gynllun yng Nghae Baker i wella strwythur y Clwb. Gosodwyd seddi newydd hefyd yn yr eisteddfan presennol ar yr un pryd a nawr gall y clwb ymfalchïo fod gennym le sydd yn ail i neb yng Nghynghrair Huws Gray. Mae cynlluniau ar y gweill i adnewyddu y Pafiliwn gyda golwg i wneud estyniad i gael dwy ystafell newid arall

I'r dynion a'r menywod, Ystafell Cymorth Cyntaf, Ystafell Lletygarwch a gwelliannau i ystafell y Dyfarnwyr.

Gobeithir bydd 3ydd cynllun i gael arwyneb 3G, cost of £317, 000 dros y blynyddoedd nesaf. Talodd Kevin Jenkins deyrnged i'r bobl a ddechreuodd bêl-droed yn y pentref rhyw 48 o flynyddoedd yn ôl, gan ddweud "heb weledigaeth y bobl hynny a wnaeth gyfarfod yn yr hen ysgol ar Ddydd Mawrth 25ain o Orffennaf 1965, ni fyddem ble 'rydym heddiw. Ray Jones, Tom Sedgewick, Arthur Thomas, Ceinion Jones, Tommi Lewis, Alun Evans, John Jones, Frank Brinks ac Alun Williams gyda nifer o blant ysgol a ddechreuodd hyn i gyd a gobeithiwn gario pethau yn bellach mlaen."

Rydym dal yn ystyried enw ar gyfer yr eisteddfan newydd, felly os oes unrhyw syniadau neu unrhyw un am noddi cysylltwch â ni.

Bones (Kevin Jenkins)

Mae Adran Ieuenctid Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch yn casglu y tocynnau a gyhoeddir yn ddyddiol yn y *Daily Post* hyd at ddydd Sadwrn 7 Rhagfyr. Gellir eu gollwng yn y Clwb d/o Bones (K. Jenkins).



# Dathlu 150



Teulu y diweddar brifathro Alun Williams (oedd yn bennaeth yr ysgol 1963-77 ) - Mrs Sylvia Williams, Robin a Gwawr. Mae Eryl y mab arall yn byw ym Massachusetts, UDA.



Prysorwen a Royston wedi dychwelyd i'r dathliadau o Lanfachreth.

Cafwyd diddordeb mawr yn yr arddangosfa o luniau a drefnwyd gan William Howells yn yr hen ysgol. Manteisiwyd ar wybodaeth ymwelwyr i enwi plant yn y lluniau. Bellach mae dros 500 o luniau ar wefan Trefeurig – a llawer mwy i ddod! Mae lluniau cyn 1977 wedi eu trefnu yn ôl prifathro
Rees Jones 1927-63
Alun Williams 1963-1977
Trevor Evans 1977 -1988
Alun John 1988-2002
a rhai o 1977 ymlaen yn luniau ac adroddiadau o'r *Tincer*.
Cafwyd dros 1037 o ymweliadau â'r wefan ym mis Medi. Gellir eu gweld yn www.trefeurig.org



Y prifathro presennol a'r cyn-brifathro yn torri y gacen.




Y Prifathro yn croesawu Cadeirydd y Cyngor Sir Y Cynghorydd John a Mrs Morina Adams-Lewis, Aberteifi i'r dathliadau.


ytincer@googlemail.com

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

SWYDDFA'R POST BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd,
Estyniadau,
Gwaith Carreg,
Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473




Dwy a weithiai yn yr hen ysgol pan symudwyd i'r adeilad newydd - Mrs Valma Jones, Tal-y-bont oedd yn athrawes a Mrs Gwyneira Marshall fu yn gweithio yn y ddwy gegin.



Llinos Evans, Mrs Maud Phillips, Bow Street – y disgybl hynaf sydd yn fyw a Mrs Sylvia Williams.



Mrs Molly Edwards, yr ail gyn-ddisgybl hynaf.



John D. Morgan, Ochor Rhos, Pontarfynach - un o deulu o 17 o blant, 12 ohonynt yn gyn-ddisgyblion yn Ysgol y Penrhyn. Mae'n frawd i Mrs Martha Edwards a Mrs Dilys Binks.

# Canlyniadau Pêl-droed Penrhyn-coch

**Canlyniadau Tim 1af Penrhyn-coch Tymor 2013-2014**

| | |
|---|---|
| 17/08/13 | Tref Bwcle 2-2 Penrhyn-coch |
| 24/08/13 | Penrhyn-coch 0-1 Guilsfield |
| 27/08/13 | Llanidloes 0-0 Penrhyn-coch |
| 31/08/13 | Penrhyn-coch 1-1 Bwrdeisdref Conwy |
| 07/09/13 | Llanrhaeadr 1-2 Penrhyn-coch |
| 14/09/13 | Penrhyn-coch 1-2 Tref Caernarfon |
| 17/09/13 | Penrhyn-coch 1-5 Caersws |
| 21/09/13 | Porthmadog 3-1 Penrhyn-coch |
| 28/09/13 | Penrhyn-coch 0-3 Cefn Druids |
| 05/10/13 | Penrhyn-coch 0-3 Holyhead Hotspurs |

Gemau nesaf : Pen-y-cae v Penrhyn-coch Sadwrn 19/10/13
Penrhyn-coch v Rhaeadr Mawrth 22/10/13
Rhydymwyn v Penrhyn-coch Sadwrn 02/11/2013
Penrhyn-coch v Y Fflint Sadwrn 16/11/2013

**Canlyniadau Eilyddion Penrhyn-coch Tymor 2013-2014**

| | |
|---|---|
| 31/08/13 | Tregaron 1-1 Penrhyn-coch Res *Cynghrair* |
| 07/09/13 | Penrhyn-coch Res 3-3 Padarn Utd *Cynghrair* |
| 21/09/13 | Penrhyn-coch Res 1-4 Bow Street Res *Cynghrair* |
| 28/09/13 | Padarn Utd 4-3 Penrhyn-coch Res *Cwpan Dai Dynamo* |
| 05/10/13 | Penparcau 0-2 Penrhyn-coch Res *Cynghrair* |

**Canlyniadau 3ydd Tim Penrhyn-coch Tymor 2013-2014**

07/09/13 Tywyn & Bryncrug Res 4-0 Penrhyn-coch 3Rds *Cynghrair*
14/09/13 Tal-y-bont 9-0 Penrhyn-coch 3 Rds *Cynghrair*
05/10/13 Padarn Res 3-4 Penrhyn-coch 3Rds *Cynghrair*

**Tim Menywod Penrhyn-coch Tymor 2013-2014**

08/09/2013 Felin-fach 0 Penrhyn-coch 2
15/09/2013 Penrhyn-coch 5 Crannog 2 Natalie Rees 1,
22/09/2013 Penrhyn-coch 5 Llanbedr P S 0

# Bwlch Nant yr Arian

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru – ers Hydref 1af – wedi cau y llwybrau beicio a marchogaeth ym Mwlch Nant yrArian am dri mis. Bydd y Ganolfan Ymwelwyr yn dal ar agor a bydd y barcutiaid yn cael eu bwydo yn ddyddiol er y bydd yna beth aflonyddu i rai fydd yn dilyn Llwybr y Barcud.

**Beth sy'n digwydd ym Mwlch Nant yr Arian?**
Caiff y coed llarwydd wrth y Ganolfan Ymwelwyr eu torri i lawr gan iddynt, yn anffodus, eu heintio â Phytophthora ramorum. Fe gymer hyn tng tri mis a bydd y gwaith yn achosi cryn dipyn o amharu ond bydd y Ganolfan Ymwelwyr a'r caffi yn dal ar agor a byddant yn dal i fwydo'r barcutiaid bob dydd. Beth am fynd i ymweld a gwylio'r peiriannau wrth eu gwaith o gysur y caffi?

**Beth Yw Phytophthora ramorum?**
Haint tebyg i ffwng yw Phytophthora ramorum sy'n ymosod ar goed a phlanhigion eraill. Mae coed llarwydd yn cynhyrchu llawer iawn o sborau sy'n lledaenu'r afiechyd gyda'r canlyniad fod llawer o goed llarwydd yn cael eu heintio.
Nid yw Phytophthora ramorum yn beryglus i iechyd pobl nac anifeiliaid. Mae'r haint wedi lledaenu trwy Gymru'n llawer cynt na'r disgwyl – oherwydd, mae'n debyg, fod tywydd gwlyb y llynedd wedi helpu'r sborau i symud. Mae prif ardal yr haint yng Nghymru'n tyfu ac yn ymestyn o'r de i ganolbarth a gogledd Cymru. Er gwaethaf ymdrechion i'w reoli, bydd yr haint yn gyffredin ledled y wlad yn fuan iawn.
Eisoes cafodd coed llarwydd wedi'u heintio eu torri ym Mharc Coedwig Afan ac mae hynny ar y gweill hefyd yn eu canolfannau ymwelwyr yng Ngarwnant ac ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd coed yn cael eu torri ar raddfa fawr ym Mwlch Nant yr Arian y mis yma.

**Beth mae hyn yn ei olygu i Fwlch Nant yr Arian?**
Bu y sefydliad yn gweithio'n galed yn ystod y tair blynedd diwethaf i arafu lledaeniad yr haint ar y safle. Er gwaethaf hyn, efallai oherwydd y tywydd, mae'n debyg fod y rhan fwyaf o'r coed llarwydd wedi'u heintio erbyn hyn. Yn hytrach na disgwyl i'r haint ledaenu ymhellach - penderfynwyd torri'r cyfan o'r coed llarwydd sy'n tyfu o gwmpas y llyn.
Byddant yn defnyddio dau ddull o dorri'r coed: peiriant megis cloddiwr a elwir yn 'gorwel' a dau gerbyd coedwigaeth arbennig ar olwynion sy'n cael eu galw'n 'gynaeafwr' a 'chludwr'. Bydd y gorwel yn gweithio ar y tir mwyaf serth a'r cynaeafwr a'r cludwr ar y gweddill. Byddant yn torri tua 4000 tunnell o goed. Mae hyn cymaint â llond 36 o fysiau deulawr! Bydd y gwaith torri'n cymryd tua thri mis, gan ddibynnu ar y tywydd - os bydd llawer iawn o dywydd gwlyb, efallai y bydd yn rhaid iddynt stopio gweithio.



## GOGINAN

### Ysbyty

Braf yw gweld Islwyn Jones, TirNaNog, yn gwella ar ôl ychydig amser yn yr ysbyty yn ddiweddar.

### Capel y Dyffryn

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y Dyffryn ar Nos Wener Hydref y trydydd. Roedd yr oedfa dan ofal y Parchg Eifion Roberts, Morfa a chafwyd ganddo bregeth amserol. Braf hefyd oedd croesawu amryw o aelodau o eglwysi eraill. Mair Jones, Coedlan oedd wrth yr organ ac eleni eto roedd Eirlys Davies, Brynmeillion, wedi addurno y capel yn hyfryd iawn

### Parti Goginan

Eleni eto cynhaliwyd y parti blynyddol ddechrau Medi lle cafwyd noswaith lwyddiannus iawn. Fe fu y gystadleuaeth Bwganod fel arfer ac yn fuddugol oedd Alfie Macken, yn ail Huw Griffiths a Jamie Macken yn trydydd. Cafodd y bwganod eu gadael o amgylch y garej am ychydig gyda wythnos ar ôl y digwyddiad ac roedd yn sioe gwerth ei gweld gydag amryw yn stopio wrth deithio drwy'r pentref.

Ers y parti llynedd mae yna Gymdeithas Goginan wedi ei sefydlu a chan fod eisiau arian





Dyma un o'r bwganod tu allan i'r garej a'r llall o'r cwilt oedd Jan Armstrong wedi ei wneud.

i wneud pethau o amgylch y pentref penderfynodd Jan Armstrong, Isfryn, wneud apêl am ddefnyddiau er mwyn gwneud cwilt ac wedyn ei rafflo ar y noswaith. Testun y cwilt oedd lliwiau'r Enfys. Ac fe'i enillwyd gan Angela Carver, Box Cottage, ac roedd yn falch iawn o'i gwobr. Roedd yna amryw wobrau eraill - rhai wedi eu gwneud o'r defnyddiau sbâr fel clustog, bag siopa, ffedogau a hefyd gwin. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y raffl a'r noswaith, ac fe godwyd £137 tuag y Gymdeithas

Mi fydd y Gymdeithas yn cynnal Ffair Grefftau yn y garej ar ddydd Sul, Tachwedd 17 ac hefyd Sêl Cist Ceir o 11 -5.

## DOLAU

### Priodas aur

Llongyfarchiadau mawr i Ifor a Margaret Mason, Bryngwyn Mawr, ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

# Colofn Mrs Jones

Stori garu sydd gennyf ar eich cyfer y mis yma ond un pur hen a rhyfeddol ac un y gobeithiaf y bydd pobl y pentref yn ei chofio. Dyma golofn y gobeithiaf y bydd ymateb iddi. Bum yn gohebu yn ddiweddar â gŵr a oedd, wrth chwilio am ei wreiddiau ym Mhenrhyn-coch, wedi crynhoi nifer helaeth o straeon papur newydd am y lle. Ef a anfonodd hon i mi ac fe ddaw'r hanes o bapur newydd o'r enw y *St Louis Republic* dyddiedig 9 Mai 1904.

Mi wyddom i gyd am gariadon plentyndod, anaml iawn y daw dim ohonynt ond fe fu llwyddiant ar garwriaeth David Lewis a Katherine Jones.Roedd y ddau yn enedigol o'r Penrhyn ac wedi cyd dyfu o'r cychwyn. Ond pan oedd David yn ddeuddeg oed a Katherine yn saith, fe ymfudodd teulu David i'r Unol Daleithiau ond, cyn iddo fynd, fe berswadiodd David Katherine i addo ei briodi a bu'r ddau yn llythyru yn gyson trwy gydol yr amser y bu'r ddau ar wahân.

Fe ddychwelodd teulu David i Brydain, o leiaf, er nad yw y papur newydd yn dweud i le yn union, ond aros yn America wnaeth David gan fynd i'r 'Wild West' i geisio ei ffortiwn yn y gweithfeydd aur. O'r diwedd, fe setlodd yn Nevada ac ymuno â'r Keystone Gold Mining Company gan ddod yn rheolwr arno.Yr oedd hi yn amser iddo gywiro ei addewid i Katherine.

Ni wyddom beth fu hanes Katherine yn ystod y blynyddoedd y bu'r ddau ar wahân, ond, erbyn i David gael ei wneud yn rheolwr y cwmni aur, yr oedd hi yn byw yn Llundain ac fe gytunodd i gyfarfod David yn Ffair y Byd St Louis. Fe roedd i'r Ffair y Byd hon ddau bwrpas, dathlu cyfoeth St Louis a dathlu yr hyn a eilw'r Americaniaid yn Bryniant Louisiana yn 1803 - the Louisiana Purchase - pan brynodd yr Unol Daleithiau dros 828,000 o filltiroedd sgwâr o dir - tir a gynhwysai hawl Ffrainc ar dir y wlad a thros 15 o daleithiau Americanaidd. Pryniant a fu, wrth gwrs, yn hanfodol i ddatblygiad America fel gwlad. Yr oedd y byd yn Saint Louis ond buan y gwelwyd mai dim ond rhamant oedd ar feddwl dau o'r ymwelwyr. A do, fe briododd Katherine a David.

Yn ôl y *Saint Louis Republic*, yr oedd David yn ddyn tal, golygus, oedd wedi colli pob nodwedd a'i marciai yn Gymro, tra yr oedd Katherine yn ferch fach dlos gyda gwallt brown golau a llygaid glas a chanddi acen Brydeinig. Fe dreuliwyd y mis mêl yn Ffair y Byd yn Saint Louis cyn dychwelyd o'r ddau i Nevada a'r aur.

Erbyn 1920, fodd bynnag, fe welwn i David a Katherine yn byw yn Los Angeles gyda dau o blant, David a Hilda.Yr oedd David yn fwynwr aur bellach. Tybed beth a ddigwyddodd i'r Keystone?

Diddorol yw nodi fod y cyfrifiad yn nodi y medrai pawb ddarllen ac ysgrifennu a mai Cymraeg oedd mamiaith y pedwar o'r teulu.

Wyddoch chi pwy oedd y ddau? Os oes gennych ryw syniad pwy ydynt,fe wn y byddai y golygydd a minnau wrth ein boddau yn clywed gennych.

Mae'n od na fedrwn ddod o hyd i fy nheulu fy hun mor sydyn.Rywdro rhwng 1840 a 1858,fe ymfudodd hen hen ewythr i minnau i'r Unol Daleithiau.Fe wn i ddigon amdano i fedru dod o hyd iddo ar gyfrifiadUDA fe dybiech... ond naw dwbl wfft iddo, fe ddiflannodd Joseph Williams i niwloedd y gorffennol ac ni allaf wireddu dim ar gred ddisigl fy mam - a gweddill Glan Conwy - iddo fynd allan yn Rhuthr Aur 1849 yn gyfaill a phartner busnes i'r dyn a ddaeth yn enwog fel tad Clementine... yn eu hôl hwy, yr oedd Clementine a'i thad yn bobl go iawn......

**ytincer@googlemail.com**




SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

y tincer
Cofiwch gysylltu â ni
ytincer@googlemail.com

# Y BORTH

### Croeso

Croeso i'r Parchg Stuart a Mrs Pru Bell sydd wedi symud ar ei ymddeoliad o Aberystwyth i Gwel Enlli. Gobeithio y byddwch yn hapus yn y Borth.

### Cofion

Mae cyn ficer arall wedi symud o'r pentref lle bu yn cyfrannu llawer ac yn dra gweithgar tra bu'n byw yma. Symudodd y Parchg David Williams rai misoedd yn ôl i Goleg St. Barnabas, Lingfield, Surrey a dymunwn yn dda iddo.

### Pen blwydd arbennig

Gyrrwn gyfarchion cynnes at Dulcie James, Aberystwyth, fu yn athrawes weithgar am flynyddoedd yn Ysgol Craig yr Wylfa. Roedd yn dathlu ei phen blwydd yn 70 oed ddiwedd Medi.

### Cofebau Capel y Gerlan

Gydag uno Capel y Gerlan â Chapel y Garn, penderfynwyd y dylid trosglwyddo'r cofebau i'r rhai a syrthiodd yn y ddau Ryfel Byd i Eglwys St Mathew, y Borth, er diogelu'r goffadwriaeth. Cysegrwyd y pedair cofeb, rhai oedd wedi cael eu gosod yn y Gerlan wedi cau Capel Libanus, gan yr Archddiacon, yr Hybarch Ddr W. A. Strange mewn gwasanaeth arbennig a phwrpasol a gynhaliwyd dan lywyddiaeth y Parchg Cecilia Charles ddydd Mercher, 28 Awst. Roedd rhai o gyn-aelodau'r Gerlan yn bresennol, gan gynnwys y cyn-fugail, Y Parchg Elwyn Pryse, a'r cyn-drysorydd, y Bnr John Rees.

### Symud ty

Dymuniadau gorau i Siwan Gwyndaf sydd wedi symud o'r Borth i Aberystwyth.







# Clwb Gwawr y Pennau

Y mis diwethaf, aeth criw ohonom i'r theatr yng Nghanolfan y Celfyddydau i weld dwy ddrama gan Theatr Bara Caws. Drama newydd oedd un sef 'Cyfaill' yn archwilio un o'r cyfnodau mwyaf cythryblus ym mywyd Kate Roberts, pan fu farw ei gŵr, Morris. Yr ail ddrama oedd addasiad newydd o 'Te yn y Grug' gan Kate Roberts. Mwynhaodd pawb y noson yn fawr iawn yn enwedig yr ail ddrama. Y mis nesaf byddwn yn mynd ar ymweliad dros nos i Henffordd. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'n gweithgareddau cysylltwch â'r cydlynydd - Rhian Nelmes – rhian.nelmes@btinternet.com am ragor o wybodaeth.

# llun y mis

**Gwahoddwyd Iestyn Hughes, Maes-y-Garn, Bow Street i gyfrannu llun y mis o'i gasgliad. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**



**Dechrau ras Triathlon Aberystwyth. Cystadlodd tua 100 o bobl mewn ras triathlon yn Aberystwyth ar fore Sul 29 Medi. Roedd y digwyddiad yn cynnwys nofio, rasio beiciau a rhedeg.**

**ytincer@googlemail.com**


# Colofn Enwau Lleol

Mae rhai mathau o enwau lleoedd yn dueddol o gael eu hepgor o fapiau, a hynny o bosibl oherwydd tybiaeth eu bod yn rhy ddi-nod i'w cofnodi. Enwau ydynt yn aml ar nodweddion megis rhiwiau, llwybrau, pontydd, pomprenni, a phyllau afonydd, ond mewn gwirionedd, maen nhw cyn bwysiced ag unrhyw enwau lleoedd eraill.

Cymrwch, er enghraifft, **Rhiw Siôn Saer**, rhiw y bydd mwyafrif trigolion ardal y *Tincer* yn gyfarwydd â'i dringo wrth deithio o gyfeiriad Gogerddan i ben Rhiw Glais, wrth gefn Comins-coch. Er nad yw'n ymddangos i unrhyw un weld gwerth cofnodi'r enw ar fap erioed, yn ffodus, ceir cofnodion print ohono yn ymestyn yn ôl dros ganrif, ac mae'n parhau i gael ei ddefnyddio'n helaeth ar lafar.

Rwy'n ymwybodol i Erwyd Howells yn rhifyn 333 (Tachwedd 2007) o'r *Tincer* ddadlau i'r rhiw gael ei henwi ar ôl John Sayer (1785-1850) brodor o Swydd Efrog a fu'n weithgar yng ngweithfeydd mwyn yr ardal ac a gladdwyd ym mynwent Eglwys Capel Bangor, ond carwn gynnig esboniad arall.

Wrth bori yng ngwefan *Papurau Newydd Cymru Arlein*, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, (http://papuraunewyddcymru.llgc.org.uk - adnodd gwerthfawr tu hwnt sy'n storfa ddihysbydd o wybodaeth ac sy'n hawdd i'w chwilio) deuthum ar draws sawl cofnod o'r enw mewn papurau newydd yn dyddio o 1895 ymlaen. Ceir erthyglau sy'n trafod pynciau mor amrywiol â damweiniau ffordd, darganfyddiad corff, cwrs rasio, a gosod pibell ddŵr. Ond yn eu plith, mewn adroddiad ar farwolaeth 'Mr Edward Edwards, bookbinder and stationer, Great Darkgate street ... known in local musical circles as Pencerdd Ceredigion' yn rhifyn 24 Medi 1897 o *The Cambrian News and Meirionethshire Standard* (tudalen 6), ceir y cofnod canlynol:



Mr Edwards was born at Aberystwyth in a house not far from the place where he died. He was born in the year 1816. His father was the son of Shon Saer who gave the name to Rhiw Shon Saer between Aberystwyth and Gogerddan. His grandfather on his mother's side was a carrier who took merchandise brought by sea inland as far as Shrewsbury, and returned with cargoes of timber which was used for shipbuilding and other purposes. When three years of age, Mr Edwards's father died, and when between the age of nine and twelve he was employed as herd boy at a place then called the Living but now Lovegrove. At the

Ni cheir gwybodaeth bellach yma am Siôn Saer, nac unrhyw awgrym beth oedd ei gysylltiad â'r rhiw dan sylw, ond gellir barnu iddo drigo yn ardal Aberystwyth tua ail hanner y ddeunawfed ganrif, a thebyg bod yr enw yn deillio o'r cyfnod hwnnw neu'n fuan wedyn.

Ers i mi gael hyd i'r cofnod hwn, deuthum i ddeall bod traddodiad llafar cryf yn ardal Aberystwyth hanner can mlynedd a mwy yn ôl yn honni mai un o hynafiaid Pencerdd Ceredigion oedd y Siôn roddodd ei enw i Riw Siôn Saer. Felly dyma ddwy ffynhonnell yn ategu ei gilydd.

Beth am i chithau fynd ati i bori yng ngwefan *Papurau Newydd Cymru Arlein*? Does wybod beth ddowch chi o hyd iddo! Ac os gwyddoch chi am enw diddorol ar lwybr, pont, pwll, ac ati, yn ardal y Tincer, cofiwch roi gwybod.

**Angharad Fychan**

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

# BOW STREET

Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00
Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/

Hydref
20 Bugail - cymun Huw Roderick
27 Adrian Williams

Tachwedd
3 Noddfa Rhidian Griffiths
10 Arwyn Pierce
17 Bugail (Cymun)
24 Terry Edwards

Noddfa

Hydref
20 Oedfa am 10.00
27 Oedfa am 2.00

Tachwedd
3 Uno yn y Garn am 10.00
10 Uno yng Nghartref Tegerddan am 3.30
17 Oedfa am 2.00
24 Oedfa am 2.00. Cymundeb.



**Dathlodd Mrs. Enid Williams, Cartref Tregerddan ei phen-blwydd yn gant oed yn ystod mis Medi. Yn y llun gwelir Mrs. Williams gyda'i nith Mrs. Gillian Thomas.**

## Diolch

Dymuna Maud Phillips, 8 Tregerddan, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi ar ôl colli ei hefaill yn y Rhondda.

## Merched y Wawr Rhydypennau

Ar nos Lun, 9 o Fai, croesawodd ein Llywydd, Marian Beech Hughes bawb i gyfarfod cyntaf o'r tymor. Dymunodd Marian wellhad llwyr a buan i Mair Lewis a Margaret Roberts oedd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Ar ôl trafod busness y gangen croesawodd Marian ein gŵr gwadd am y noson, sef Geraint Evans, awdur *Diawl y Wasg*. Treuliodd yr aelodau awr ddiddorol yng nghwmni Geraint yn trafod mwrdwr a mwy a'r gwaith ymchwil yr ymgymerodd a eth cyn ysgrifennu ei nofelau. Yn dilyn noson addysgol diolchodd Brenda i Geraint am ei gyfraniad i'r noswaith. I orffen cafwyd lluniaeth ysgafn a baratowyd gan y pwyllgor dan ofal Gaenor Jones. Ar nos Lun, 30 o Fedi , aeth mwyafrif o'r aelodau i noson o ddramâu Bara Caws yn Theatr Canolfan y Celfyddydau sef y 'Cyfaill' a 'Te yn y Grug'.



**Gweinidogion ac arweinwyr eglwysig o Laikumkhrah, Shillong, yr India, yn canu cyfieithiad o'r emyn 'Dyma gariad fel y moroedd' yn eu hiaith eu hunain ar eu hymweliad â Chapel y Garn ddydd Mawrth, 17 Medi. Cynhaliwyd gwasanaeth byr yn eu cwmni, dan arweiniad y Gweinidog, a pharatowyd lluniaeth ar eu cyfer gan y Chwiorydd.**

## Neuadd Rhydypennau

Mae tocynnau raffl fawr Neuadd Rhydypennau ar werth nawr. Bydd y gwobrau yn cael eu tynnu yn y noson goffi yn y Neuadd ar Hydref 24ain fydd yn dechrau am 6.30. Bydd gwahanol stondinau ac adloniant gan blant ysgol Rhydypennau.

Cynhelir nosweithiau bingo yn y Neuadd ar nos Fercher cyntaf pob mis am 7.30. a hefyd sêl pen bwrdd dan do pob yn ail bore Sadwrn yn y Neuadd. Darperir byrddau, a bydd gwres ymlaen, £5 y bwrdd. Ffoniwch 01970 828772 i gadw lle.

## Coleg

Llongyfarchiadau i Amy Miles, Crefftau Pennau, ar ei chanlyniadau lefel A a phob hwyl iddi ar ei chwrs business a chymdeithaseg ym Mhrifysgol Lerpwl.



Cynhaliwyd Te Moethus llwyddiannus yng Nghartref Tregerddan ar ddechrau Medi gan gyfeillion y cartref. Agorwyd y te gan Mrs. Ina Tudno Williams. Yn y llun gwelir cadeirydd y cyfeillion, Penri James a rheolwraig y cartref Elaine Evans yn cynnal ocsiwn.

### Dathlu

Llongyfarchiadau mawr i Peter a Dina Henley, Doleglur, ar ddathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar. A barnu oddi wrth yr holl ddathlu sydd wedi bod ar ben blwyddi priodas arbennig yn ddiweddar mae`n rhaid bod 1963 wedi bod yn flwyddyn fawr yn y byd priodasol!

### Diolch

Dymuna Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, ddiolch yn ddiffuant am yr holl gardiau, galwadau ffôn, anrhegion ac ymweliadau a dderbyniodd ar ôl ei llawdriniaeth ddiweddar. Prawf pendant o garedigrwydd a haelioni y Cardis! Diolch hefyd am y gofal ardderchog a gefais yn Ysbyty Bron-glais gan gofio pwysigrwydd gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau dyfodol Bron-glais

Fe hoffai Rheinallt a Sarah, 38 Maes Ceiro, ddiolch o galon am yr holl gyfarchion ac anrhegion a gyflwynwyd iddynt ac i Ela Mai ar ei genedigaeth yn ddiweddar.

### Ŵyr

Llongyfarchiadau i John a Non Jenkins, 15 Maesafallen ar enedigaeth ŵyr bach, Twm Elis, mab i Hannah a Guto; brawd i Eban.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Esyllt a Ben Sears ar enedigaeth Mabli Elan Benjamin, yn Nhrerhingyll ar 3 Hydref 2013, wyres gyntaf i Elgan a Menna Davies, Maesafallen.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i James a Kate, Tŷ Capel y Garn, ar enedigaeth mab bach, Osian, ddydd Mawrth, 8 Hydref.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Rhian Ellis, gynt o Hywelfan, ac Anthony ar eu dyweddiad. Dymuniadau gorau i chi eich dau.

### O'r ysbyty

Braf yw gweld Norma Stephens, Blaenddol, o amgylch unwaith eto ar ôl ei llawdriniaeth.

### Capel Llwyn-y-groes

Cynhaliwyd y Cwrdd Diolchgarwch ar y nos Fercher olaf o fis Medi. Y pregethwr gwadd eleni oedd y Parchg Hywel Jones, cyn-reithor Llanbadarn. Cafwyd orig bleserus iawn yn ei gwmni. 'Roedd y Capel eleni eto wedi ei lanhau a'i addurno yn hyfryd iawn a diolch o galon i'r rhai hynny a wnaeth y gwaith. Diolch i Delyth Davies, Maencrannog, am wasanaethu wrth yr organ ac i bawb o'r ardal am eu presenoldeb.

### Urdd y Benywod

Mae yn amser unwaith eto i ddechrau ar raglen y gaeaf ac eleni ym mis Medi aeth rhai o'r aelodau ynghyd a'u partneriaid i gerdded o amgylch Nant yr Arian. Ar ôl treulio amser yn yr awyr iach cafwyd paned a chlonc yn y caffi, dechreuad da i'r tymor

Nos Lun 5ed o Hydref bu yn rhaid newid y rhaglen oherwydd bod David Bavin o'r Ymddiriedolaeth Vincent yn sal. Diolch i John Marshall am gamu i mewn ar fyr rybydd. Cawsom hanes ei daith yn ceisio dringo Mont Blanc yr haf diwethaf. Er iddo fethu a chyrraedd y copa oherwydd y tywydd, roedd wedi cael amser pleserus iawn a phrofiad bythgofiadwy. Diolchodd Jill Fathers yn fawr iddo a hyfyd oedd gweld nifer o bobl newydd sydd wedi symud i fyw i'r ardal yn ddiweddar yn ymuno â ni.

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â TEGWYN LEWIS
01970 880627

TACSI EDDIE
Perchennog: Connie Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Cofiwch gysylltu â ni
ytincer@googlemail.com

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 26 Medi yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng. Dewi James. Llongyfarchwyd y Clerc, Richard Lewis ar ddod yn Daid yn ddiweddar. Hysbyswyd bod Ms Sharon King, Elgar, wedi bodloni i ddod yn aelod o'r Cyngor yn dilyn ei henwebiad.

Derbyniwyd cais oddi wrth rhai o drigolion Tregerddan am arwyddion mwy o faint i geisio atal perchnogion cŵn rhag gadael i'w hanifeiliaid faeddu y rhodfeydd a'r Cae Chwarae. Edrychwyd eto ar y posibilrwydd o bwrcasu offer i Faes Chwarae Bryncastell, ond mae'r prisiau yn afresymol o ddrud a'r grantiau yn anodd i'w cael, oni bai fod y Maes hefyd yn newydd. Mae rhagor o feinciau wedi eu pwrcasu, a disgwylir iddynt gyrraedd yn fuan.

Mae rhai trigolion o gwmpas Nantafallen wedi dangos cryn bryder a chonsyrn am y datblygiadau newydd yn Afallen Deg. Nid yn gymaint am y lliw ("urinal grey") chwedl un o'r Cynghorwyr, ond pa ddosbarth o fobl fydd yn cael eu lleoli yno. Ond dywedodd llefarydd ar ran y Landlord Cymdeithasol yn Nhai Ceredigion mai lle i henoed archolladwy (vulnerable elderly) a rhai sy'n anabl i symud o gwmpas fydd yn yr unedau newydd, gyda warden llawn amser.

Yn ei adroddiad dywedodd y Cynghorydd Paul Hinge ei fod yn gwasgu am gael newid y cyflymdra ar y ffordd o'r Amlosgfa i fyny at Nantcellan, ac ar y ffyrdd deheuol a gogleddol at y traeth yng Nghlarach, i lawr hyd at 20mya. Recordiwyd un car yn gwneud 80mya ger Nantllan yn ddiweddar.

Rhoddwyd addewid gan y Cyngor am rodd ariannol i Ysgol Rhydypennau os daw cais am wella cyfleusterau i ddisgybl anabl sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Ar fater cynllunio adroddwyd bod ceisiadau wedi eu caniatau am (1) estyniad i Glennydd, Dolau; a (2) amrywiadau ar gynlluniau y Pentre Myfyrwyr, Penglais. Daeth cais newydd i law oddi wrth yr Eglwys yng Nghymru am gael codi Ficerdy yn y Berllan, tu ôl i Brynteifi ac Islwyn yn Bow Street. Er na ddangoswyd gwrthwynebiad i'r datblygiad, cytunwyd mai "twll o le" oedd hwn i godi Ficerdy! Doedd dim gwrthwynebiad chwaith i newid bythynnod gwyliau i fod yn aneddau parhaol ym Mryncarnedd.

Cytunwyd i gyfrannu £200 o bunnoedd tuag at y Tân Gwyllt gan Glwb Pêl-droed Bow Street. Ni chymerodd y Cyng. Vernon Jones ran yn y drafodaeth.

Mae cwynion fod wyneb y Lôn Groes mewn cyflwr difrifol a gwneir cais i Adran y Ffyrdd ar fyrder i edrych a gweithredu ar y mater.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau, 17 Hydref, ac nid ar y nos Iau arferol.


**Gwesty'r Llew Du**
Black Lion Hotel

**Beth am archebu eich Parti Dolig gyda ni !**

**Bwyd Da . . .**
**Cwmni Da . . .**

Talybont, Aberystwyth
01970 832 555
gwestyllewdu.com

**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

- Pigion – arddangosfa cyfrwng cymysg gan Ann Thomas (hyd at 24 Hydref)
- Cristnogaeth 21 yn Morlan (7.30, 9 Hydref) – Byw'r Cwestiynau
- Gŵyl Lyfrau Morlan (15-16 Tachwedd) – yn cynnwys Parti i Ddathlu Rala Rwdins yn 30 oed a sesiynau gyda Dafydd John Pritchard, Francesca Rhydderch, Eigra Lewis Roberts a Hywel Gwynfryn

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
01970-617996; morlan.aber@gmail.com
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23

**CROESO CYNNES I BAWB!**

**Cyngerdd Corau Ger-y-lli a Godre'r Garth**
**Yn pefformio Atgof o'r sêr (Robat Arwyn)**
**Nos Sadwrn Rhagfyr 7fed**
**yn Eglwys y Drindod Sanctaidd**

**Cyngerdd Nadolig Côr ABC**
**yn**
**Eglwys Llanbadarn Fawr**
**Nos Sul Rhagfyr 1af**

**Gwersi Piano i Blant**
Ffon: 07581464666

**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

ytincer@googlemail.com

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

# LLANDRE



### Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

Croesawodd y Llywydd, Glenys Evans, yr aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor ar Fedi 16eg. Penderfynwyd o flaen llaw mai noson o frethyn cartref fyddai hon gan fod angen talu'r aelodaeth a thrafod nifer o faterion ynghyd a rhaglen y tymor. Cydymdeimlwyd â Mrs. Marian Jenkins a gollodd ei chwaer yn ddiweddar a llongyfarchwyd wyrion ac wyresau'r aelodau a brofodd lwyddiant dros yr haf.

Un o aelodau mwyaf selog a gwerthfawr y gangen, sef Mrs. Mary Thomas, Croesawdy oedd wedi cytuno i lenwi'r noson trwy roi sgwrs ar enwau tai ym mhentref Llandre gan fynd a'r aelodau trwy drafodaeth fywiog a lluniau yn ôl i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan gychwyn gyda tai pridd hyd at y stadau a godwyd yn ystod y blynyddoedd mwyaf diweddar. Daeth i ben wrth ofyn i'r aelodau gyfrannu pwt wrth enwi eu tai gan geisio rhoi eglurhad ar darddiad y gwahanol enwau. Yr oedd pawb wedi mwynhau wrth barhau i drafod dros baned.

Diolchodd y llywydd iddi ac i'r Ysgrifennydd, Mrs Mair England, am baratoi rhaglen ddiddorol ac amrywiol ar gyfer y flwyddyn.

### Mynd i'r coleg

Pob lwc a hapusrwydd i Delyth Owen, 1 Clos y Ceiliog, ar gychwyn ym Mhrifysgol Sheffield lle bydd yn astudio'r Gyfraith ac Astudiaeth Troseddau.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Marian ac Eddie Jenkins, Eryl, a'r teulu ar farwolaeth chwaer Marian mis diwethaf.

### Croeso

Croeso cynnes i Andrew a Georgina Griffiths a'u merch fach Olivia i'w cartref newydd, sef Gwenlli, Llandre. Hefyd llongyfarchiadau i Dai ac Eileen Griffiths, Maeshenllan ar ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith eto.

### Treftadaeth Llandre

31 Hydref - Côn defaid Cymru - Erwyd Howells
Cynhelir cyfarfodydd yn Ysgoldy Bethlehem, gan gychwyn am 7.30 yh

### Ymwelydd o Ganada

Cafodd teulu Bron Ceiro ymweliad gan berthyn o bell yn ddiweddar. Roedd Victor Griffiths o Vancouver ar ymweliad â Chymru . Yn frodor o'r Gaiman yn y Wladfa ym Mhatagonia symudodd ei hen daid, Richard Griffiths o'r ardal hon i dalaith Santa Fe, Ariannin ym 1869 gan setlo yn nhref Alexandra. Priododd weddw Wyddelig , Margaret Gorman de Adams, ar Ragfyr 2 1877. Ar ei marwolaeth o'r darfodedigaeth ym 1881, fe benderfynodd symud i lawr i Batagonia. Yno priododd Ann Rhys a chawsant ddau o blant - Lizzie Jane a Milwyn. Mae Victor yn fab i fab Milwyn – Orwig - fu ei hun yng Nghymru ar ymweliad. Roedd Richard Griffiths yn gefnder i Mrs J.T. Rees. Mae lluniau gan y teulu yn Ariannin o Richard ar ymweliad â Chymru – yn eistedd yn yr ardd gyda teulu Bron Ceiro. Roedd Victor wedi gobeithio gallu ail greu y llun gyda'r cenedlaethau presennol ond yn anffodus roedd y tywydd yn wlyb. Rhyfeddodd cystal oedd Sbaeneg Morfudd Clark! Gobeithia allu dychwelyd yn fuan gyda'i wraig Liliana – sydd hefyd o Ariannin a'u mab Nicolas a'u merch Iriel.
Yn y llun gwelir Victor gyda Morfudd Clark, Gwenan Price a Gethin Elias – ŵyr Nest, chwaer Morfudd . Roedd Gethin – ar ól cyfnod yn gweithio yng Ngwarchodfa Adadr Ynys-hir yn symud i weithio mewn swydd debyg yn Llanwddyn, Powys.

### Clwb 50 Banc Bro

**Enillwyr mis Hydref**

1. £30 - Elena Davies, Bronallt
2 £20 – Joy Evans, Tyn Simdde
3. £10 – Glyn a Margaret Williams, Bryngolau

### Mynd i'r Coleg

Pob lwc i Michael Shaw, Afallon, 2 Clos y Ceiliog, ar gychwyn cwrs Astudiaethau Busnes ym Mhrifysgol Abertawe.



**Alan Phillips yn falch o'i ddisgyblion fu yn rhan eleni o Fand Pres Cenedlaethol Cymru yr haf yma. Rhun Penri, Huw Llŷr Evans, Gwern Penri, Meleri Pryse, Dafydd Rees ac Arron Clarke.**

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Wynne a Linda Melville Jones, Y Berllan, ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith yn rhagor. Ganwyd efeilliaid - Efan Hedd ac Elis Gwern - i Meleri a Matt yng Nghaerdydd. Pob bendith a hapusrwydd i'r teulu. Ffrindiau bach newydd i Mr Urdd!

### Ar y sgrîn

Gwelwyd Miriam Davies, Junis, Lôn Glanfred, yn cymryd rhan yn y rhaglen ddifyr ar Deulu Bach Nant Oer yn ddiweddar. Yn gynharach yn y flwyddyn clywsom iddi fod yn fasgot i dîm Pêl-droed Wrecsam olygodd iddi gael cyfarfod y chwaraewyr, cael taith o'r Cae Ras a hefyd arwain y tîm allan ar gyfer y gêm rhwng Wrecsam a Chaer.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhian England, ar ei dyweddiad ddechrau mis Hydref â Dai Thomas o Blaencwrt, Cribyn.

# Llythyrau

Annwyl Olygydd,
Tybed a all eich darllenwyr ein helpu gyda'n prosiect cyffrous newydd 'Lleisiau o Lawr y Ffatri / Voices from the Factory Floor'? A oeddech chi, neu a ydych chi'n adnabod unrhyw fenyw a oedd gweithio mewn ffatri diwydiant ysgafn yng Nghymru rhwng tua 1945 ac 1975? Yn y cyfnod hwn roedd cannoedd o ffatrïoedd, gan gynnwys ffatrïoedd Laura Ashley yn y canolbarth, Metalbox a Mettoy yn ardaloedd Castell Nedd / Abertawe; ffatri Berlei Bra yng Nglyn Ebwy a Kaiser Bond yn Nowlais yn weithredol ledled Cymru a menywod oedd yn gweithio ynddynt yn bennaf.
Yn dilyn prosiect peilot bychan llwyddiannus yn ne Cymru, mae Archif Menywod Cymru wedi derbyn grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri i wneud prosiect hanes llafar sylweddol ar y thema hon ledled Cymru, fel y gallwn sicrhau y caiff yr agwedd bwysig hon ar hanes menywod ei diogelu a'i chadw at y dyfodol. Rydym yn awyddus iawn i recordio'r hanesion hyn cyn ei bod yn rhy hwyr.
Oes gennych chi atgofion, storïau a ffotograffau y gallech eu rhannu â ni? Os felly, hoffem glywed oddi wrthych. Rydym eisiau dysgu mwy am brofiadau menywod fu'n gweithio yn y ffatrïoedd hyn: Pam aethon nhw i weithio yno? Pa fath o waith oedden nhw'n ei wneud? Beth oedd y tâl? Oedden nhw'n aelodau o undeb llafur? Sut fywyd cymdeithasol oedd ynghlwm â'r ffatri? a llawer o gwestiynau diddorol eraill. Mae eich storïau o ddiddordeb mawr i ni.
Os gallwch chi ein helpu neu os gwyddoch chi am unrhyw un a all wneud hynny, cysylltwch â ni ar 01792 893410; trwy e-bost catrin@stevens2760.freeserve.co.uk neu trwy lythyr at 'Lleisiau o Lawr y Ffatri' 10 Bwrw Road, Casllwchwr, Abertawe SA4 6TX os gwelwch yn dda, a gallwn ni drafod ein prosiect yn fanylach â chi.

Yn gywir
Catrin Stevens
(ar ran Archif Menywod Cymru
www.womensarchivewales.org )

Annwyl Gyfeillion

**Ysgoloriaeth Organ Bib**

Gwahoddir ceisiadau gan gerddorion lleol a chanddynt ddiddordeb i ddysgu sut i ganu'r Organ Bib Hanesyddol Rothwell yng Nghapel y Bedyddwyr Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth. Mae'r organ o bwys hanesyddol ac fe'i cofrestrwyd gyda'r British Institue of Organ Studies fel un yng nghategori Gradd Dau Seren. Mae'r offeryn yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd.

Dylai ymgeiswyr fod wedi llwyddo, neu'n disgwyl llwyddo yn fuan yn arholiad Gradd 5 ar y piano. Bydd cost y gwersi yn rhad ac am ddim a rhoddir cyfraniad bychan tuag at y gost o brynu cerddoriaeth ddalen. Bydd y gwersi yn cychwyn yn ystod Gwanwyn 2014 a bydd disgwyl i'r cerddor sy'n derbyn yr ysgoloriaeth gyfeilio yn yr oedfaon o bryd i'w gilydd.

Dylid anfon cais drwy lythyr at y Gweinidog, y Parchedig Judith Morris, Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth, SY23 3EW erbyn 31 Rhagfyr 2013.

Yn gywir
Gweinidog a Swyddogion Eglwys Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth.
Berwynfa, Penrhyn-coch
Aberystwyth SY23 3EW . 01970 820939
berwynfa@btinternet.com

**Llyfr Llofnodion Ein Llên**

Cyflwynodd y ddiweddar Eirlys Phillips, Machynlleth y llyfr llofnodion unigryw yma i Gôr Bro Meirion i'w werthu er mwyn lles 'Cronfa Idris', sef Idris Pugh, un o aelodau'r côr a gafodd ei daro'n ddifrifol wael mewn cyngerdd.

Mae'n llyfr llofnodion go arbennig – syniad a gafoddd Eirlys Phillips i geisio gwaith a llofnodion beirdd a llenorion Cymru.

Erbyn ei drosglwyddo i'r côr, roedd wedi casglu bron i 90 o lofnodion prifeirdd a phrif lenorion, aelodau gwahanol dimau'r Talwrn a beirdd gwlad. Mae'r casgliad unigryw yn cynnwys pennill o'u dewis yn eu llawysgrifen eu hunain.

Mae rhestr enwau'r cyfranwyr i'w gweld yn llawn ar wefan y côr (www.corbromeirion.com) ond, i gael blas o'r gyfrol, mae cerddi yn llawysgrifen T Llew Jones, Dic Jones, Mererid Hopwood a Gerallt Lloyd Owen, i enwi dim ond pedwar.

Y mae'r llyfr bellach wedi ei glorio'n daclus – ond nid yw'n waith gorffenedig, gan fod lle i fwy o lofnodion. Yng ngeiriau Eirlys Phillips, "Y bwriad yw cyflwyno gwaith cyfranwyr "Cerddi'r Beirdd" i'r cenedlaethau i ddod."

Os oes gennych ddiddordeb yn ei brynu, a wnewch chi anfon eich cynigion i Eleri Wyn Williams Parlla Isaf, Rhoslefain, Tywyn, Gwynedd LL36 4NF, 01654 711427 eleriwynparlla@hotmail.com erbyn Rhagfyr y 1af. Dymuniad y côr yw bod cynigion yn cychwyn o tua £300.

Mae modd gweld y newyddion diweddaraf am y llyfr ar dudalen Facebook neu wefan Côr Bro Meirion http://corbromeirion.com/newyddion/.



Yn ddiweddar cynhaliodd Capten Ieuenctid Clwb Golff y Borth ac Ynys-las Ddiwrnod Capten Ieuenctid pan ddaeth dros 20 o chwaraewyr ifanc a'u gwahoddedigion ynghyd i'w gefnogi. Yn y llun (o'r chwith i'r dde) Y Capten Ieuenctid Iolo ap Dafydd, Goginan; enillydd Diwrnod y Capten Tomos Wyn Roberts, Bow Street a'r Is-Gapten Elis Lewis, Bow Street.

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Mewn colofn ddiweddar, mi soniais am y gwaith oedd yn mynd rhag blaen i wella cysylltiadau band-llydan, sydd mor ddiffygiol mewn nifer o ardaloedd yng Ngheredigion. Bydd hon yn frwydr hir, ond caf nodi un darn o newyddion da. Mae'r 'Cynllun Cymorth Band Eang', sy'n caniatáu grantiau o hyd at £1000 o bunnoedd i helpu unigolion a busnesau sydd heb fawr o gysylltiad i fuddsoddi mewn band-llydan lloeren neu ateb amgen, am barhau. Roedd y cynllun gwreiddiol am ddod i ben ddiwedd Medi, ond daw cynllun newydd – gydag enw gwahanol ond bron union yr un telerau – yn ei le. Nodwch fod rhaid cwblhau'r gwaith papur a chael caniatâd y Llywodraeth cyn bwrw ati i gael y cyfarpar, ac mae croeso i chi gysylltu a mi os oes gennych ddiddordeb yn hyn.


Mae band-llydan, wrth gwrs, yn hanfodol i nifer o fusnesau, a da oedd dathlu llwyddiant un busnes arloesol sydd wedi ei wreiddio yng Ngheredigion ers y cychwyn cyntaf. Mynychais ŵyl Golwg yn ddiweddar, ac roedd yn wych cael rhannu yn llwyddiant y cylchgrawn, sydd wedi cynnal ei chylchrediad ers chwarter canrif. Rwyf nawr yn derbyn y cylchgrawn ar-lein trwy'r 'Ap' newydd, bob bore dydd Iau, sy'n ddefnyddiol iawn pan fyddaf yn y Cynulliad.

Rhaid peidio anghofio, fodd bynnag, am fathau llai modern o gyfathrebu, sydd yr un mor hanfodol i gynnal busnesau a'n safon byw yng nghefn gwlad. Rwy' wedi bod yn brysur y mis diwethaf gydag ymgyrch yn erbyn cynlluniau Llywodraeth San Steffan i breifateiddio'r Post Brenhinol. Cyhoeddodd y gweinidog, Vince Cable, y byddai'r preifateiddio yn digwydd cyn y Nadolig yn ôl bob tebyg. Y pryder yw na fydd perchnogion preifat newydd wedi ymrwymo i ddarparu'r un gwasanaeth, ac am yr un pris, mewn ardaloedd gwledig a threfol, a gall arwain at golli swyddi a bygwth ymhellach ddyfodol ein rhwydwaith Swyddfeydd Post. Rwy'n benderfynol o ymgyrchu dros chwarae teg i ardaloedd fel Ceredigion.

# Taith gerdded y mis

## Tal-y-Bont i Dôl-y-Bont

**Man dechrau**: Tu fas i'r Llew Du, Tal-y-bont
**Map**: OS Explorer 213 GR 654893
**Pellter**: 4 milltir hawdd




Croesi'r ffordd a dilyn y feidr tuag at iet Allt y Crib. Troi i'r chwith a dilyn y ffordd goedwigaeth nes cyrraeddd iet i'r caeau. Syth ymlaen heibio Frongoch a chadw ochr uchaf y ffens. Ymlaen dros y caeau a chyraedd Henllys. Troi i'r dde ar hyd y ffordd a chwilio am sticl ar y dde ar ôl mynd heibio mynediad Alltgoch. Dros y sticl a syth ymlaen a lawr trwy'r goedwig i gwrdd â'r llwybr – troi i'r chwith a nôl i Dal-y-bont.

**Rees Thomas**

Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

Nos Wener 4.30-9.00
Gwersi Gitâr
Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk
Gitâr i'r Cristion
01974 299367
Canolfan Merched Y Wawr
Stryd yr Efail
Aberystwyth.

ytincer@googlemail.com

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Torri Gwrych a Strimmio, Disgownt i Bensiynwyr.
Ffôn 01974 261758
07792457816
(Nid oes yr un gwaith yn ormod)

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Oedfaon Capel Pen-llwyn**
**Hydref**
20 Parch Richard Lewis 10 o'r gloch.
27 Parch Wyn Morris 5 o'r gloch

**Tachwedd**
3 Parch G Macdonald 10 o'r gloch
10 Parch Wyn Morris 10 o'r gloch

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhian Davies, 5 Cefnmelindwr,
ar ei dyweddiad i Anthony Barr,

## Brysiwch Wella

Dymuniadau a chofion gorau i Mrs Brenda Evans, Exchange, sydd yn derbyn triniaeth feddygol ar hyn o bryd.

Hefyd, i Mr Garth Hughes, Brynawelon, sydd newydd ddod adre o'r ysbyty ar y cyntaf o Hydref, wedi triniaeth lawfeddygol.

Nid yw Mrs Maggie Jones, Haulfryn, chwaith, wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar.

Gobeithio y byddwch eich tri yn well yn fuan.

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhelir yr uchod yng nghapel Pen-llwyn, ar Hydref 25ain am 7 o'r gloch.
Pregethir gan y Parchedig Judith Morris, Penrhyn-coch. Croeso cynnes i
bawb, mae gennym bob un,cymaint i fod yn ddiolchgar amdano.

## Y Clwb, Hwyl Hwyr i blant

Ail ddechreuwyd y clwb uchod yn yr ysgol, pob Nos Wener o 3.30 hyd 4.30 o'r gloch, dan ofal y Parchedig Derrick Adams, Aberystwyth. Croeso i bawb.

## Cylch meithrin Pen-llwyn

Byddai'r Cylch Meithrin yn hoffi dweud pob lwc i Efanna, Phoebe a Hedd wrth iddynt adael ar gyfer yr ysgol gynradd a rhoi croeso mawr i Ceinwen ac Isabelle.

## Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Yn y cyfarfod ym mis Hydref estynnwyd croeso i'r aelodau a'r wraig wadd gan ein llywydd, Mrs Beti Daniel. Edrychai'r aelodau ymlaen at gael Mrs Dianne Smith i siarad â ni y tymor diwethaf, ond yn anffodus methodd â dod. Soniodd wrthym fel yr arferai weithio'n Aberystwyth ac yna'n Aberteifi ond testun ei sgwrs oedd ei bywyd yn Saudi Arabia. Drwy gyfrwng llun a sgwrs aeth â ni i'r wlad lle treuliodd un flynedd ar ddeg yn gweithio a hynny fel nani/athrawes. Ond nid gweithio i deulu cyffredin y bu, gweithiai i aelodau o'r teulu brenhinol. Gwelsom y cartrefi moethus y bu'n byw a gweithio ynddynt, cawsom syniad o'r gwyliau a gafodd gyda'r teulu a hefyd y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati ganddynt. Wrth gwrs byddai disgwyl iddi fod yn ufudd i'w chyflogwyr ac un noson a hithau yn ei gwely, cafodd orchymyn i ymuno â'r dywysoges a'i ffrindiau. Er mawr syndod iddi dechreuodd y dyn yn y cwmni siarad â hi yn Gymraeg. Eiffitiwr oedd e ac wedi dysgu Cymraeg tra'n astudio yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Dangosodd Dianne Smith nifer o wrthychau o'r wlad gan roi ambell i hanesyn amdanynt a chafwyd cyfle i weld ac archwilio ambell i wisg oddi yno. Diolchodd y llywydd i'r wraig wadd am noson ddiddorol ac am ddod â chymaint o eitemau o'r wlad i'w dangos.

Mrs Glenys Griffith a Mrs Eirwen McAnulty oedd yng ngofal y te ac fe enillwyd y wobr raffl gan Mrs Margaret Dryburgh. Y tro nesaf edrychwn ymlaen at gael cwmni Mrs Mair Jones pryd y cawn arddangosfa goginio.

## Seren y Llwyfan a'r Sgrin

Hyfryd iawn oedd gweld un o fechgyn y pentref, ar y sgrîn deledu rhai wythnosau yn ôl, sef Rhydian Jones, mab Mrs Margaretta Jones, a'r diweddar John Jones, fferm Tyllwyd.

Cafodd ei addysg yn ysgol Pen-llwyn a Phenweddig, a phob amser yn dangos diddordeb mewn actio. Mae'r llun yn ei ddangos ar y llaw dde gydag actorion eraill yn y rhaglen "The Indian Doctor", sydd yn ôl ar y sgrîn eto ym mis Tachwedd, ac yn cael ei ddarlledu dros Brydain y tro hyn. Dywedodd Rhydian mai hwyl a phleser oedd chwarae y rhan Dr Robert Thomas.





**Dydd Sul 29 Medi cynhaliwyd gwasanaeth ar y cyd rhwng eglwysi Elerch, Capel Bangor a Phenrhyn-coch yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor. Yn y llun gwelir Heather Evans, arweinydd addoliad a Lona Jones, darllenydd lleyg.**

Wrth gwrs gwelwn ef o dro i dro, fel y cyfreithiwr yng Nghwmderi ym Mhobl y Cwm a mae hefyd wedi actio ar lwyfan cyn hyn.

Pan ofynnwyd iddo beth oedd ganddo ar y gweill nesaf atebodd "Rwyf nawr yn dechrau ffilmio cyfres dditectif, sef Jonathan Creek, a hynny yn Llundain yr wythnos nesaf, gyda'r actor Alan Davies"

Mae yn chwarae cymeriad sy'n cadw cyfrinach bwysig, dyna i gyd mae yn fodlon ddweud wrthym!

Dymuniadau gorau Rhydian, am yrfa lwyddiannus yn y dyfodol boed yn waith teledu neu lwyfan oddi wrth drigolion dy bentref enedigol. Pob Hwyl.

## Golffiwr ifanc

Llongyfarchiadau i Richard James, ŵyr Neol a Luned Scott sydd ar hyn o bryd yn derbyn ei addysg yn yr Unol Daleithiau sydd hefyd yn rhoddi cyfle iddo wella ei allu fel golffiwr. Tra adre eleni dros yr haf cafodd lwyddiant mewn aml gystadleuaeth gan gael ei ddewis i chwarae dros Gymru yn Nenmark ac allan yn Sbaen. Roedd yn gyson yn y tri uchaf o olffwyr amatur Cymru gyda'r uchafbwynt yn dod iddo pan gafodd wahoddiad i chwarae yng Nghystadleuaeth Agored Cymru yn y Celtic Manor gan gyffwrdd ysgwyddau gyda mawrion y gêm broffesiynol. Er na fu yn llwyddiannus roedd yn falch o'i ymdrech ac mae wedi dychwelyd yn awr i Dde Florida am flwyddyn arall o'i addysg.

## Sioe Capel Bangor

Pwyllgor Blynyddol yn y Druid Goginan nos Fercher Tachwedd 6ed am 7.30 y.h. Mae dyfodol y Sioe yn dibynnu ar gefnogaeth pobl yr ardal.

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 17 Medi 2013, yn Neuadd Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Tegwyn Lewis, yn y gadair. Roedd Edwina Davies, Trefor Davies, Mel Evans, Shân James, Daniel Jones, Dai Rees Morgan, Gwenan Price, Jeff Pyne ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan y cynghorwyr eraill.

Materion yn codi: Roedd y Clerc wedi cysylltu a'r Cyngor Sir i ofyn am farn swyddogol am gyflwr y ffordd mewn mannau ym Mhen-bont Rhydybeddau, ac wedi gofyn am asesiad risg, ond nid oedd wedi cael cydnabyddiaeth hyd yma. Yn dilyn y llifogydd, mae'r tir yn simsan iawn mewn mannau ar y ffordd rhwng Pendorlan a'r hen ysgol. Ni chafwyd gwybodaeth bellach am y cais i Gyngor Ceredigion a Thai Ceredigion ynglŷn a darparu ychwaneg o lefydd parcio ger Maes Seilo. Roedd Eirian Reynolds wedi holi am arwydd Ysgol ychwanegol rhwng Ysgol Penrhyn a'r bont ger Glanceulan.

Materion ariannol: Roedd adroddiadau archwiliwr mewnol cyfrifon y Cyngor ac un cwmni BDO, yr archwilwyr allanol, wedi cael eu derbyn. Nodwyd y sylwadau ac awdurdodwyd y Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen i'w hanfon yn ôl i BDO. Roedd taflen wedi dod oddi wrth NALC, cymdeithas y cynghorau lleol, yn argymell y dylid codi cyflog clerc cyngor o faint Cyngor Trefeurig o £8.75 yr awr i £10.60 yr awr. Cytunwyd i weithredu hyn ac i'w ôl-ddyddio i Ebrill 2013. Ymysg y taliadau a wnaed yr oedd £3,000 i Ysgol Feithrin Trefeurig, arian a oedd wedi ei grynhoi dros fwy nag un flwyddyn. (Fe wnaeth Shân James a Gwenan Price ddatgan budd pan drafodwyd y mater hwn.)

Cynllunio: Nodwyd fod y ceisiadau canlynol wedi eu caniatáu: estyniad i Llawenfan, Salem; ffens, 98 Ger-y-llan, Penrhyn; 'carport', Cemlyn, Pen-bont; estyniad i 43a Dôl Helyg, Penrhyn. Trafodwyd y ceisiadau canlynol, ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad iddynt: dau 'polytunnel' ar gyfer ymchwil yng Ngogerddan; trin y tŷ a chwalu rhai o'r tai allan yn yr Efail, Penrhyn, er mwyn helaethu'r tŷ; estyniad yn 13 Maes-y-felin, Penrhyn. Roedd cais wedi'i gyflwyno unwaith eto am dŷ ger Rhandir, Penrhyn. Cafwyd sawl cais eisoes am dŷ ar y safle hwn, a gwrthodwyd pob un, ac nid oedd hwn lawer yn wahanol. Penderfynodd y Cyngor wrthwynebu'r cais yn bendant. Mae rheolau cynllunio wedi cael eu torri ar y safle hon ers tro. Rhoddwyd caniatâd i shed amaethyddol ar y safle, ond fe fu busnes 'sandblasting' yn cael ei redeg yno am gyfnod; hefyd mae carafán statig ar y safle heb ganiatâd iawn ers tua dwy flynedd. Hefyd nodwyd fod y ffordd ger y safle yn gul iawn ac yn gwbl anaddas ar gyfer y datblygiad.

Cyfarfodydd a fynychwyd: Adroddodd Dai Rees Morgan am de mefus llwyddiannus iawn a gynhaliwyd yn ystod yr haf yng Nghartref Tregerddan, a hefyd ddathliadau Ysgol Penrhyn-coch yn150 oed a oedd newydd eu cynnal. Penderfynwyd ysgrifennu at Brifathro'r Ysgol i'w longyfarch ar y dathliadau.

Materion eraill: roedd Edwina Davies wedi derbyn cwyn fod fan yn cael ei pharcio'n gyson mewn man peryglus ger y Ficerdy yn Penrhyn, a hefyd roedd cerbyd yn aml yn achosi rhwystr ger Brondderw, Penrhyn. Penderfynwyd tynnu sylw'r heddlu at hyn. Roedd y ffordd ger Pant-drain wedi cael niwed gan gerbyd mawr; penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir osod pyst du a gwyn ger ochr y ffordd er mwyn ceisio osgoi digwyddiad cyffelyb. Adroddwyd fod Cyngor Ceredigion yn ystyried darparu llwybr seiclo rhwng Aberystwyth a Phenrhyn-coch.

Ar ddiwedd y cyfarfod, dywedodd Daniel Jones ei fod wedi penderfynu ei bod yn bryd iddo ymddiswyddo o'r Cyngor, a diolchodd i'r Cadeirydd a'r aelodau am bob cydweithrediad a chefnogaeth yn ystod ei dymor hir fel cynghorydd. Gyda thristwch y derbyniwyd ei ymddiswyddiad, a diolchodd y Cadeirydd iddo am ei wasanaeth maith a ffyddlon i'r Cyngor. Yn sicr fe fyddai'r Cyngor yn gweld ei golli, a dymunwyd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog**
**2.00**
**Hydref**
20 Bugail
27 Adrian Williams

**Tachwedd**
3 Bugail
10 Arwyn Pierce
17 Bugail (Cymun)
24 Terry Edwards

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Lisa Evans, Elonwy, Capel Dewi ar farwolaeth ei chyfnither yn Aberystwyth.

### Pen blwydd arbennig

Dymuniadau gorau i Elin Wallace, Troed-y-rhiw, ar ddathlu ei phen blwydd yn 18oed ar yr 11eg o Fedi.

### Croeso adref o Norwy

Braf yw cael croesawu adref Dr Marged Haycock, Gwarcwm, ar ôl treulio blwyddyn yn gweithio yn Oslo gyda thîm o ymchwilwyr. Roedd wedi mwynhau y profiad yn fawr.

### Teledu

Braf oedd gweld Erwyd Howells, Tŷ Capel, Madog ar raglen 'Y Plas' S4C. Roedd Erwyd yn rhoi cyngor ar sut i gynaeafu ceirch.

### Bethlehem

Cyfarfod Diolchgarwch
Nos Iau Hydref 24, 2013
Am 7.00 o'r gloch
Pregethir gan y
Parchg J E Wynne Davies, Aberystwyth.
Croeso i bawb.

**ytincer@googlemail.com**

# Ysgol Penrhyn-coch

### 150

Am benwythnos!! Cynhaliwyd ein dathliadau pen blwydd yn ystod penwythnos y 13eg i'r 15fed o Fedi. Cychwynwyd y dathliadau gyda noson arbennig yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch. Adloniant y noson oedd y band Gweriniaeth. Band lleol ydy y rhain gyda dau ohonynt yn gyn ddisgyblion o Ysgol Penrhyn-coch ac un arall â chysylltiadau cryf teuluol â'r pentre. Buont wrthi yn perfformio yn arbennig gyda'r gynulleidfa amrywiol yn llwyr fwynhau. Yn hwyrach yn y noson cafwyd ymddangosiad gan Darren Huxtable – cyn riant yn yr ysgol. Bu wrthi yn diddanu y gynulleidfa ac yn canu nifer o ganeuon. Cychwyn arbennig i'r Dathliadau.

Y diwrnod canlynol, cafwyd prynhawn agored yn yr ysgol. Unwaith eto, braf oedd croesawu nifer enfawr o bobl atom, yn gyn rieni, staff, disgyblion a ffrindiau. Gwelwyd nifer o wynebau cyfarwydd a chafwyd cyfle i sgwrsio ac i hel atgofion. Daeth nifer o westeion a gwahoddedigion atom a chafwyd croeso swyddogol. Cafwyd areithiau priodol gan Mr Arwyn Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Dysgu Cyngor Ceredigion, Mr Alun John, cyn Bennaeth yr ysgol ynghyd â'r Pennaeth presennol. Yn ystod y prynhawn, gwelwyd gweithgareddau o fewn y dosbarthiadau, dwy Ffagl Olympaidd a gariwyd gan dau cyn ddisgybl yr ysgol, cyn ddisgyblion yn arwain gweithgareddau ynghyd â Caryl Lewis yn cynnal sesiwn ddarllen. Aeth nifer fawr o'r rhai oedd yn bresennol i lawr i'r Hen Ysgol (Neuadd yr Eglwys) i edrych ar yr Arddangosfa arbennig yno. Ffrwyth gwaith William Howells oedd yr arddangosfa yn olrhain hanes yr ysgol trwy luniau, geiriau a gwrthrychau. Bu'r Arddangosfa ar agor dros y penwythnos a braf oedd gweld cymaint yn cymryd y cyfle i ymweld â hi.

Ar y nos Sadwrn, cafwyd Cyngerdd Mawreddog y penwythnos yn Neuadd y Penrhyn. Roedd holl artistiaid y noson yn gyn ddisgyblion. Arweinydd y noson oedd Elen Pen-cwm a chafwyd eitemau gan Alun John, Greg Vearey-Roberts, Tirion Lewis, Marianne Powell, Glenys Jenkins, Mared Emyr ynghyd â phartion llefaru yr ysgol a Chôrau yr Ysgol a'r Pentref. Braf oedd gweld y Neuadd yn orlawn. Diolch i'r holl artistiaid am eu gwaith arbennig.

Ar y bore dydd Sul gwelwyd 38 o dractorau ar iard yr ysgol. Cynhaliwyd ein taith tractor flynyddol. Aethant am daith o amgylch ffyrdd yr ardal cyn dychwelyd yn ôl i'r Clwb Pêl-droed. Trwyddi draw o'r nos Wener i'r bore dydd Sul, bu'r Dathliadau yn arbennig. Diolch i bawb a fu'n rhan o'r Dathliadau mewn unrhyw ffordd ac i'r Pwyllgor diwyd fu wrth y trefniadau. Ymlaen i'r 150 nesaf!



Ein Cyngor Plant Gwyrd d/ ECO

### Côr Penbryn

Yn ddiweddar bu côr yr ysgol yn canu yn TaMed Da ar Gampws Prifysgol Cymru. Roeddynt yn canu i westeion i Gynhadledd Ryngwladol. Cafwyd croeso arbennig gan y gwesteion a phawb wrthi yn gwrando yn astud. Llongyfarchiadau i'r disgyblion ar eu perfformiad a diolch i'r rhieni a ddaeth i wrando arnynt.

### Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco

Cynhaliwyd ein hetholiadau ar gyfer y Cyngor Ysgol yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Annie May, Steffan, Eddie, Zara, Florrie, Rhys, Sophie a Zoe ar gael eu hethol fel Cynghorwyr Ysgol. Maent wrthi yn brysur yn trafod syniadau ac yn cwrdd yn rheolaidd. Pob dymuniad iddynt yn eu rôlau gwahanol.
Ar yr un diwrnod, etholwyd ein Cyngor Eco. Llongyfarchiadau i Celyn, Shane, Ceri, Charlotte, Carys, Luke, Stephanie a Isabelle ar gael eu hethol fel Cynghorwyr Eco.

### Stondin Gacennau

Cynhaliodd Miss Cory ei stondin gacennau yn ddiweddar. Rydym yn cynnal un stondin y mis yn rheolaidd. Braf yw gweld cymaint yn dod i gefnogi a phrynu. Diolch i bawb fu wrthi yn coginio (gan gynnwys y disgyblion) ac i bawb a brynodd gacennau. Codwyd swm da i goffrau y dosbarth derbyn.

### Activemarc

Mae Ysgol Penrhyn-coch wedi gorffen ar frig y dosbarth wrth i'w gwaith Addysg Gorfforol dderbyn adroddiad disglair. Mae Chwaraeon Cymru a'r Gymdeithas ar gyfer Addysg Gorfforol yn hyrwyddo ysgolion sy'n cydnabod pwysigrwydd Addysg Gorfforol. Mae pob ysgol yn gallu gwneud cais am FarcActif Cymru ac, eleni, mae 38 ysgol ledled Cymru wedi cyrraedd y safon. Dim ond llond llaw o ysgolion yng Ngheredigion sydd wedi derbyn y marc hyd yma. Mae MarcActif Cymru yn cefnogi ysgolion sy'n ymrwymo i ddatblygu addysg gorfforol a chwaraeon ysgol o safon uchel ac sy'n hyrwyddo buddion addysg gorfforol. Llongyfarchiadau i Miss Cory am ei gwaith caled.



Aelodau ein Cyngor Ysgol



Aelodau ein Cyngor Chwaraeon

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Estyn allan

Braf iawn oedd cael croesawu aelodau Cymdeithas Henoed y Borth yn ôl i'r ysgol ym mis Medi i ymuno â ni i gael cinio yn yr ysgol, fel rhan o'n prosiect 'estyn allan' i'r gymuned. Mae'r prosiect 'cinio i'r gymuned' bellach yn rhedeg ers 2011 ac yn boblogaidd iawn ymysg aelodau'r gymdeithas a chymuned yr ysgol. Edrychwn ymlaen at ei hymweliad nesaf ym mis Hydref.

### Pêl droed

Llongyfarchiadau i beldroedwyr yr ysgol a fu'n cystadlu yn nhwrnamaint 5 bob-ochr yr Urdd yn ddiweddar yng Nghanolfan Hamdden Plascrug. Cyrhaeddodd y tîm y rownd derfynol cyn colli'r gêm olaf. Da iawn fechgyn!

### Design 2 smile

Cafwyd ymweliad gan 'Gynllun Gwen' ar ddechrau mis Medi er mwyn dosbarthu brwshys dannedd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r disgyblion yn sgwrio eu dannedd yn ddyddiol yn yr ysgol er mwyn hybu arfer dda a chadw dannedd iach.

### Ymwelwyr

Hyfryd oedd cael croesawu ein partneriaid Comenius i Gymru ar ddechrau mis Hydref. Daeth ymwelwyr o'r Ffindir, Twrci, Sbaen, Yr Eidal, Groeg, Ffrainc a'r Iwerddon i ymweld ag Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Comins-coch. Cynhaliwyd gwasanaeth croeso gan blant y ddwy ysgol i'r ymwelwyr, lle cyflwynwyd yr ymwelwyr gyda phecyn croeso gan blant yr ysgol. Cafodd y disgyblion gyfle i gynnal sesiwn 'cwestiwn ac ateb' gyda'r ymwelwyr a hefyd, trosglwyddwyd mascot y prosiect, sef Lily, o Gymru, i'r Ffrancwyr. Wedi'r gwasanaeth, bu cyfle i'r ymwelwyr fwynhau te traddodiadol Cymreig yn yr ysgol cyn mynychu'r cyfarfod ffurfiol yn yr hwyr. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ddatblygu ein gwaith prosiect dros y flwyddyn nesaf a'r ymweliad nesaf i Baris ym mis Tachwedd.

### Yr Arglwydd Rhys

Ar fore Mercher, Hydref 8fed, daeth disgyblion Ysgolion Craig yr Wylfa, Tal-y-bont a Llangynfelyn at ei gilydd yn Neuadd Gymunedol y Borth er mwyn gwylio sioe Yr Arglwydd Rhys gan gwmni Mewn Cymeriad. Cafodd pob un amser da gan fwynhau'r perfformiad byrlymus.

### Cyngor Ysgol

Ar ddechrau'r tymor, bu'r disgyblion yn pleidleisio er mwyn ethol cyngor ysgol newydd am y flwyddyn. Mae "Criw'r Graig" yn cwrdd bob hanner tymor ac yn ôl y galw. Ceir etholiad pob blwyddyn er mwyn ethol y Cyngor Ysgol sy'n cynnwys aelodau o flwyddyn 2 i fyny. Maent yn bwriadu cynnal diwrnodau i godi arian ar gyfer prynu adnoddau amser chwarae i'r Ysgol a hefyd i'r elusennau amrywiol. Cawn glywed pa syniadau cyffrous arall fydd ganddynt yn ystod y flwyddyn.









# Ysgol Pen-llwyn

### Comenius

Yn ddiweddar bu Mr Kevin Jones ar daith i Ddenmarc. Bwriad y daith oedd i gwrdd gyda chriw o athrawon o Ysgolion Ewropeaidd er mwyn cynllunio prosiect ar y cyd. Bydd disgyblion Ysgol Pen-llwyn yn cydweithio dros y flwyddyn nesaf ar brosiect “Tell me your story”. Mae ein hysgolion partner yn Denmarc, Sweden, Iwerddon, Ffrainc a Chymru. Mae’r disgyblion eisoes wedi ysgrifennu negeseuon i’r ysgolion yma ac yn disgwyl atebion cyn bo hir. Mae prosiectau Comeniws yn cynnig cyfleoedd i athrawon a disgyblion ddatblygu dealltwriaeth o wahanol gyfundrefnau addysg a diwylliannau. Mae disgyblion Pen-llwyn yn gyffrous iawn i gydweithio ar brosiect o’r fath ac yn awyddus i gyfathrebu efo disgyblion eraill. Edrychwn ymlaen i groesawu athrawon a phlant yn ôl i Gymru ym mis Mai nesaf.

### Prynhawn Coffi Macmillan

Bu Cyngor Ysgol Pen-llwyn yn brysur iawn yn ddiweddar yn paratoi a threfnu prynhawn coffi er mwyn cefnogi Ymchwil Cancr Macmillan. Daeth llawer o ffrindiau a rhieni i’r ysgol ac fe wnaeth pawb fwynhau y cacennau blasus a gafodd eu paratoi gan rieni, Cathy’r gogyddes a disgyblion dosbarth 1 fel rhan o’u gwaith dosbarth. Bu dosbarth 2 yn paratoi fflapjacs hefyd. Ar ddiwedd y prynhawn, braf oedd cyhoeddi ein bod wedi codi y swm anrhydeddus o £150. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

### Ymweliad Addysgiadol

Bu yr ysgol gyfan ar ymweliad addysgol yn ddiweddar. Bu dosbarth y Cyfnod Sylfaen i archfarchnad Morrisons er mwyn dysgu mwy am waith y Pobydd yn y popty. Mwynheuodd y disgyblion daith o gwmpas y siop ac roeddent yn hapus iawn wrth baratoi Pizza a’i fwyta. Buont hefyd yn eistedd wrth y desgiau yn chwarae rôl wrth sganio eitemau wrth y til.

Bu dosbarth 2 ar ymweliad â Amgueddfa Ceredigion er mwyn dysgu mwy am ei gwaith Hanes, sef Oes Fictoria. Diolch i staff yr Amgueddfa am y wybodaeth ddiddorol a gawsom, ac hefyd am y croeso. Mwynheuodd pawb ymchwilio drwy gasgliad yr Amgueddfa a dysgu llawer am effaith Oes Fictoria ar ardal Aberystwyth.

Ar ôl cyfnod o chwarae ac ymlacio yn y parc dros yr awr ginio, aeth yr ysgol gyfan i lyfrgell newydd y dre. Bu Mrs Delyth Huws yn ein tywys o gwmpas y llyfrgell, gosod helfa drysor a darllen stori ddigri i’r disgyblion. Cafwyd amser hwylus dros ben. Diolch i staff y llyfrgell am y croeso.

### Cyngor Ysgol

Rydym eisoes wedi penodi Cyngor Ysgol newydd am y flwyddyn. Llongyfarchiadau i Llŷr Evans, Laura Jones-Williams, Morgan Joyce, Huw Griffiths, Owain Pugh, Deri Gwynne a Evan Jones. Maent eisoes wedi cyfarfod i drefnu’r bore coffi. Dwi’n siwr y byddant yn gweithio yn galed dros ddisgyblion Ysgol Pen-llwyn.

### Cyngor Eco

Mae gennym gyngor Eco newydd erbyn hyn. Maent yn awyddus iawn i gydweithio gyda’r Cyngor Ysgol er mwyn datblygu ardaloedd yr ysgol i fod yn fwy deniadol a gwyrdd. Yn gyntaf, byddan nhw’n archwilio posibiliadau o brynu offer chwarae a meinciau newydd.



**Dosbarth 2 yn mwynhau ym Mharc y Castell yn ystod eu hymweliad ag Aberystwyth.**







**Bore coffi Macmillan**

# Ysgol Rhydypennau

## Etholiadau

Bellach mae'r ysgol wedi ethol, trwy bleidlais, aelodau Y Pwyllgor Eco a'r Cyngor Ysgol. Mae aelodau'r ddau gyngor yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn gwneud penderfyniadau pwysig a sicrhau llais swyddogol i weddill y disgyblion mewn amryw o agweddau ym mywyd yr ysgol.

## Adran yr Urdd

Mae Adran yr Urdd wedi ail ddechrau bellach. Bu plant blynyddoedd 4, 5 a 6 yn mwynhau taith gerdded o gwmpas Ty'n Rhos yn ystod y noson gyntaf dan arweiniad Mr Rees. Mi fydd y gweithgareddau difyr yn parhau yn ystod gweddill y flwyddyn.

## Noson Goffi

Ar y 3ydd o Hydref cynhaliwyd noson goffi er mwyn codi arian i'r Unedau Meithrin a Derbyn. Trefnwyd stondinau, te, coffi a raffl. Yn ystod y gwario a'r sgwrsio codwyd dros £300. Diolch yn fawr iawn i bawb.

## Cynaeafu cynnyrch yr ardd

Dros dymor yr haf bu nifer o blant yn gofalu'n gyson am gnydau'r ardd. Erbyn hyn mae'r cnydau wedi cael eu defnyddio mewn amryw o ffyrdd yn cynnwys cystadlu yn sioe arddwriaeth Rhydypennau; gwerthwyd tipyn o gynnyrch i rieni a ffrindiau'r ysgol ac yn awr mae gweddillion y cnydau'n cael eu defnyddio gan flwyddyn dau er mwyn creu siytni blasus.

## Gwasanaethau

Mae Y Parchedigion Richard Lewis, Andrew Lenny a Wyn Morris bellach wedi cyfrannu i wasanaethau boreol yr ysgol yn ystod y tymor hwn. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn iddynt am eu hamser a'u cyfraniadau gwerthfawr.

## Canlyniad Clwb Cant Hydref

£25 Helen Jones, Tal-y-bont
£15 Debra Simpson Jones, Llanilar
£10 Mair Lewis, Maes Ceiro



Adran Yr Urdd



Y Cyngor Ysgol-Nicholas Garrod, Cai Roberts, James Whitney, Owen Evans, Elain Morgan, Olivia Jones, Selena Williams Sian Duckett



Prynu a gwerthu yn y noson goffi.



Y Pwyllgor Eco-Blwyddyn 6



Creu Siytni blasus



Stondin lysiau o gynnyrch yr ardd.

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk

# Tasg y Tincer



Moana Raggett

Diolch i bawb fu'n lliwio llun y pilipala yn ystod y mis. Am ddel! Mi gawsoch chi hwyl arni. Dyma pwy fu wrthi: Nel Davies, Caernarfon; Lois Medi, Llandre; Moana Gwyn Raggett, Y Borth; Ffion o Ddolgellau; Betsan Downes, Trefeurig; Elin Gore, Comins-coch; Lily-May Welsby, Aberystwyth.


Diolch arbennig i Moana Gwyn Raggett, Y Borth ac Elin Fflur Morgan, Llandre am eu lluniau hyfryd o glychau'r gog.

Wel, roedd dewis enillydd yn anodd iawn y mis hwn, ond roeddet ti, Moana, wedi rhoi adar a haul yn dy lun di felly ti sy'n cael y wobr y tro hwn. Da iawn ti.

Tybed a fuoch chi'n dathlu Diwrnod T. Llew Jones ar 11 Hydref? Ganwyd T. Llew ar y dyddiad hwnnw yn 1915, bron i gan mlynedd mlynedd yn ôl. Beth wyddoch chi amdano? Cafodd ei eni mewn pentref bach o'r enw Pentre-cwrt, ger Llandysul. Ysgrifennodd dros hanner cant o lyfrau a nifer fawr o gerddi. Rwy'n siŵr eich bod wedi darllen rhai ohonyn nhw – *Ofnadwy Nos*, *Yr Ergyd Farwol* a *Tân ar y Comin*. Mae ei lyfrau yn llawn antur a dirgelwch ac mae un o'i straeon newydd gyrraedd y siopau, sef *Y Pedwerydd Dyn Doeth*. Bu T. Llew yn athro ac yn brifathro yn ardal Llandysul, ac yn ei amser hamdden, roedd o'n hoff iawn o chwarae gwyddbwyll.

Efallai eich bod wedi gwisgo fel cymeriad o un o lyfrau T. Llew ar 11 Hydref – lleidr pen ffordd dewr, sgweiar balch, gwraig y plas neu'n fôr-leidr anturus. Mae rhai o'i straeon yn llawn smyglwyr, ogofâu ... a thrysor cudd, wrth gwrs! Y mis hwn, beth am liwio llun llong y môr-ladron? Tybed ai un fel hyn oedd gan Barti Ddu?

Anfonwch eich llun i'r cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Tachwedd. Pob hwyl ar y lliwio!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed


**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**JONATHAN JAMES LEWIS**
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

**GOLCHDY LLANBADARN**
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES



ISSN 0963-925X
9 770963 925009

Rhif 362 | HYDREF 2013